1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Effaith cyllid RHAGORI: adroddiad dros dro

Gorffennaf 2007

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Θ Hawlfraint y Goron 2007: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Prif ganfyddiadau **3**

Argymhellion **5**

Canfyddiadau sy'n codi **6**

Ysgolion cynradd 6
Ysgolion uwchradd 8
Ysgolion arbennig 10
Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau addysg lleol 11

Cyflwyniad

1 Ym mis Ebrill 2006, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gynlluniau i ryddhau £32 miliwn o gyllid dros ddwy flwyddyn ysgol i wella lefel perfformiad disgyblion dan anfantais. Caiff hwn ei adnabod fel y grant i 'godi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigolion' (RHAGORI).

2 Anfonodd Llywodraeth Cynulliad Cymru lythyr i bob awdurdod addysg lleol (AALl) yn rhoi manylion am yr ysgolion a ddewiswyd i gael grant. Fe wnaethant seilio'u dewis ar hawl i brydau ysgol am ddim o 20% ac yn uwch. Roedd yn rhaid i'r ysgolion a ddewiswyd hefyd gael 50 disgybl neu fwy o oed ysgol gorfodol. Roedd y llythyr yn nodi'r grant y byddai pob ysgol yn ei gael yn 2006-2007.

3 Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ysgolion baratoi cynlluniau dwy flynedd ar gyfer defnyddio'r grant a chytuno ar ddefnydd arfaethedig o'r cyllid gyda'u AALl a chyda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhoesant restr o ddefnydd cymwys a chyfres o feini prawf hefyd y byddent yn arfarnu pob cais yn eu herbyn.

4 Yn dilyn cyhoeddi rhaglen RHAGORI, diwygiwyd cylch gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn ar gyfer 2006-2007 i ofyn i Estyn adeiladu ar y gwaith yn 2005-2006 ar danberfformio mewn ysgolion uwchradd ac ymestyn y gwaith hwn i ysgolion cynradd. Gofynnwyd i Estyn yn benodol i arfarnu'r graddau y mae ysgolion sy'n cael grant RHAGORI yn gweithio gyda'u AALlau i hyrwyddo agenda cyfiawnder cymdeithasol y Cynulliad, trwy fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd gymdeithasol a thangyflawni. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, byddai Estyn yn gweithio gydag AALlau i arfarnu effeithiolrwydd eu gwaith i herio a chefnogi ysgolion sy'n cael cyllid RHAGORI.

5 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyfnodau cynnar menter RHAGORI, gan gynnwys cynllunio a sefydlu prosesau ar gyfer rheoli'r grant. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn barnu effaith prosiectau ar gyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion.

6 Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ymweliadau a wnaed gan arolygwyr rhwng mis Hydref 2006 a mis Chwefror 2007 â:

- 27 ysgol gynradd;
- 10 ysgol uwchradd;
- tair ysgol arbennig; ac
- wyth AALlau.

7 Adolygodd arolygwyr waith cychwynnol yr ysgolion wrth:

- gynllunio prosiectau a llunio cynllun gweithredu;
- rheoli prosiectau a defnyddio'r grant; a
- sefydlu prosesau i fonitro ac arfarnu prosiectau RHAGORI.

8 Fe wnaeth arolygwyr adolygu rôl yr AALlau wrth:

- fonitro ac arfarnu cynlluniau gweithredu ysgolion;
- cydlynu gweithgareddau ysgolion mewn AALlau a rhyngddynt; a
- sefydlu prosesau i fonitro ac arfarnu effaith y grant.

Prif ganfyddiadau

9 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi sefydlu ystod o brosiectau defnyddiol, ond ychydig iawn ohonynt sy'n arloesol. Ni wnaeth cyflwyno menter RHAGORI roi digon o amser i ysgolion gynllunio, ac ni chafodd meini prawf ar gyfer arfarnu cynlluniau ysgol eu darparu yn ddigon buan.

10 Mae'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw wedi canolbwyntio'n bennaf ar brosiectau ar gyfer codi safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r ysgolion uwchradd wedi canolbwyntio ar wella llythrennedd ac agweddau disgyblion, tra'n darparu cwricwlwm ehangach ar gyfer disgyblion hŷn. Mae prosiectau yn y tair ysgol arbennig yr ymwelwyd â nhw wedi'u cynllunio i ehangu'r ystod o brofiadau sydd ar gael i'w disgyblion.

11 Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion yn cysylltu eu cynlluniau gweithredu RHAGORI â'u cynllun datblygu ysgol yn effeithiol. Fe wnaeth tua hanner yr ysgolion ystyried y blaenoriaethau a amlinellir yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' wrth ysgrifennu eu cynlluniau, ond nifer fach a ymgynghorodd ag ystod o bartneriaid.

12 Mae gan y rhan fwyaf o'r ysgolion ddarlun clir o'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd gymdeithasol a thangyflawni. Fodd bynnag, defnyddiodd rhai ysgolion uwchradd ddata perfformiad yn hytrach nag anfantais fel y prif faen prawf ar gyfer dewis disgyblion i gymryd rhan mewn prosiectau.

13 Mae mwyafrif yr ysgolion wedi sefydlu gwaelodlinau clir ar gyfer mesur cynnydd mewn cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion, er bod hyn yn fwy effeithiol ac eang mewn ysgolion cynradd. Mae bron pob ysgol yn defnyddio amrywiaeth eang o ddata i fesur cynnydd disgyblion ac mae llawer ohonynt wedi gosod targedau realistig a heriol ar gyfer eu disgyblion.

14 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn rheoli eu prosiectau yn dda ac mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhoi cyfleoedd i staff hyfforddi a datblygu medrau neu adnoddau newydd.

15 Mae mwyafrif yr ysgolion wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer arfarnu'r prosiect. Nid yw llawer o'r ysgolion wedi cynllunio'n ddigon trylwyr i gynnal manteision prosiectau pan fydd cyllid RHAGORI yn dod i ben, er bod yr agwedd hon ar gynllunio yn well mewn ysgolion arbennig.

16 I ddechrau, ni roddwyd digon o gymorth ariannol i AALlau ymgymryd â'r gwaith ychwanegol o gydlynu, cefnogi, monitro ac arfarnu'r fenter. Erbyn hyn mae cyllid wedi cael ei ddarparu i awdurdodau lleol arwain mewn pedwar rhanbarth i sefydlu trefniadau cydlynu. Mae cynnydd wrth egluro a sefydlu rôl cydlynydd rhanbarthol yn amrywio gormod ledled Cymru. Yn gyffredinol, nid yw AALlau yn gweithio'n ddigon agos ag ysgolion i gydlynu gweithgareddau mewn AALlau a rhyngddynt.

17 Mae bron pob un o'r AALlau yr ymwelwyd â nhw yn monitro cynlluniau gweithredu RHAGORI eu hysgolion ac yn cynnig cymorth, her a chyngor i ysgolion. Nid yw rôl arfarnu AALlau wedi'i datblygu digon, a dim ond ychydig iawn o AALlau sydd wedi

annog ysgolion i sefydlu gwaelodlinau i fesur cyrhaeddiad, cyflawniad a chynnydd disgyblion.

18 Er ei bod yn rhy gynnar i farnu effaith prosiectau ar gyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a ddarperir ar eu cyfer.

Argymhellion

19 Dylai pob ysgol sy'n cael cyllid RHAGORI:

A1 arfarnu prosiectau RHAGORI yn drylwyr ac integreiddio strategaethau llwyddiannus i addysgu a dysgu prif ffrwd;

A2 defnyddio ystod lawn o ddata i olrhain cynnydd disgyblion unigol ar brosiectau, yn dibynnu ar waelodlin sefydledig;

A3 ymgynghori'n ehangach â phartneriaid wrth ddatblygu prosiectau RHAGORI;

A4 datblygu prosiectau RHAGORI yn greadigol i fynd i'r afael ag effeithiau anfantais; a

A5 chynllunio i gynnal manteision prosiectau pan ddaw cyllid RHAGORI i ben, er enghraifft, trwy hyfforddi staff mewn dulliau addysgu a dysgu newydd.

20 Dylai pob awdurdod addysg lleol a chydlynydd rhanbarthol:

A6 alluogi ysgolion i rannu arfer dda a gweithio gyda'i gilydd;

A7 monitro ac arfarnu prosiectau yn fwy gofalus;

A8 cefnogi a herio ysgolion i osod targedau, mesur cynnydd ac arfarnu yn fwy trylwyr; a

A9 rhoi mwy o arweiniad a hyfforddiant i helpu staff i gynnal manteision prosiectau pan fydd cyllid RHAGORI yn dod i ben.

21 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A10 ystyried y ffordd orau o gefnogi ysgolion ac awdurdodau addysg lleol wrth weithredu'r fenter ac wrth ddatblygu rôl cydlynwyr rhanbarthol.

Canfyddiadau sy'n codi

Ysgolion cynradd

Cynllunio prosiectau a chynlluniau gweithredu

22 Mae bron pob ysgol gynradd yr ymwelwyd â nhw wedi cyflwyno prosiectau sydd wedi'u cynllunio i wella rhifedd a llythrennedd grŵp wedi'i dargedu o ddisgyblion ar draws yr ystod oedran, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae amrywiaeth o brosiectau eraill yn cynnwys sefydlu clybiau ar ôl yr ysgol, gwella presenoldeb, datblygu medrau meddwl yn feirniadol disgyblion, ac adeiladu tîm. Mae rhai ysgolion wedi defnyddio rhestr Llywodraeth Cynulliad Cymru o weithgareddau cymwys i sefydlu prosiectau newydd, ond mae'r rhan fwyaf wedi defnyddio'r rhestr i gadarnhau addasrwydd eu syniadau presennol, sefydledig ar gyfer rhaglenni.

23 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn dangos brwdfrydedd dros y cyfleoedd a gyflwynir gan grant RHAGORI. Dangosant agwedd gadarnhaol ac maent yn benderfynol o wireddu eu gweledigaeth o lwyddiant.

24 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi cynnwys pob un o'r staff yn llawn wrth ddewis a chynllunio'r prosiectau i ymgymryd â nhw. Mae gwaith newydd wedi cael ei gysylltu'n agos â chynlluniau datblygu ysgolion ac mae'n cysylltu'n dda â strategaethau sydd eisoes ar waith. Cyfeiriodd tua hanner yr ysgolion at 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' pan oeddent yn ysgrifennu eu cynlluniau gweithredu.

25 Nid yw'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi ymgynghori'n eang wrth benderfynu ar eu prosiectau, ac eithrio i drafod eu cynlluniau ag ysgolion clwstwr neu'r AALl. Mae rhai ysgolion wedi bod yn weithgar o ran arwain hyfforddiant mewn swydd ar gyfer ysgolion eraill.

Rheoli darpariaeth

26 Mae gan yr ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw syniad clir o'r cyswllt rhwng anfantais a thangyflawni. Mae'r rhan fwyaf wedi nodi grwpiau addas o blant o gefndiroedd economaidd gymdeithasol dan anfantais i gymryd rhan yn eu prosiectau. Maent wedi nodi'n arbennig y disgyblion hynny dan anfantais 'nad ydynt yn dod i'r ysgol yn barod i ddysgu', 'nad ydynt yn cael unrhyw gymorth gartref' a'r 'ysgol yw'r unig fan lle cânt sefydlogrwydd'.

27 Mae bron pob ysgol wedi defnyddio ystod o brofion i'w helpu i dargedu grwpiau o'r disgyblion sydd dan anfantais a fyddai'n elwa fwyaf ar ymyriad. Mae rhai ysgolion wedi defnyddio meini prawf penodol, er enghraifft, ar gyfer targedu disgyblion:

- y mae eu hoedran darllen chwe mis y tu ôl i'w hoedran cronolegol;
- nad ydynt ar y gofrestr anghenion arbennig ond y maent eisoes yn elwa ar gyllid ychwanegol; ac
- y gallent gyrraedd lefel 4 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 gyda chymorth ychwanegol.

28 Mae rhai o'r ysgolion wedi bod yn hyblyg o ran dewis disgyblion, wrth i'w prosiectau ddatblygu. Os yw disgyblion wedi dangos digon o gynnydd ar ôl asesu gofalus, cânt eu tynnu allan o'r grŵp targed a bydd disgyblion eraill sy'n gallu elwa yn cymryd eu lle.

29 Mae mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi defnyddio cyllid i gyflogi athrawon ychwanegol neu gynorthwywyr cymorth dysgu i gefnogi'r grwpiau o ddisgyblion targed. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion strategaeth glir ar gyfer cynnal manteision y ddarpariaeth newydd hon yn y tymor hir, ac eithrio i ymgorffori'r costau ychwanegol i gyllideb yr ysgol os oes modd. Mae hyn yn ddiffyg sylweddol o ran eu cynllunio ar gyfer cynnal manteision grant RHAGORI.

30 Mae penaethiaid mewn rhai o'r ysgolion wedi cynllunio ar gyfer cynnal manteision y prosiectau yn y tymor hir, trwy adeiladu ar:

- arbenigedd a gwybodaeth gynyddol athrawon am ystod eang o strategaethau addysgu a dysgu arloesol, rhai wedi'u datblygu trwy ymchwil gweithredu, gan gynnwys ymestyn medrau meddwl beirniadol disgyblion ac ystyried arddulliau dysgu unigol disgyblion;

- mwy o gyfranogiad gan rieni ac aelodau eraill o'r gymuned ym mywyd yr ysgol; a'r

- adnoddau gwell a chynyddol.

31 Mae penaethiaid yn y rhan fwyaf o ysgolion yn rheoli'r rhaglen gyffredinol yn dda ac mae aelodau o staff yn cymryd cyfrifoldeb am brosiectau unigol. Mae gan lawer o ysgolion strwythurau rheoli cryf a chysylltiadau cyfathrebu da, yn enwedig rhwng athrawon dosbarth a'r cynorthwywyr cymorth dysgu sy'n cefnogi'r grwpiau targed o ddisgyblion. Yn yr arfer orau, mae pob un o'r staff sy'n ymwneud â'r prosiectau yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio gwaith yn drylwyr.

32 Mae llawer o ysgolion yn cefnogi staff yn llawn wrth iddynt baratoi deunyddiau addysgu a dysgu newydd ac maent wedi sefydlu rhwydweithiau cymorth cryf ar gyfer staff newydd. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion hyn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hyfforddi i staff, ac mae rhai yn darparu amser digyswllt ar gyfer staff neu i brynu adnoddau newydd.

33 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi rhoi gwybod i'r holl gyfranogion am y datblygiadau hyn, ond nid yw rhai wedi rhoi gwybod i rieni yn llawn am drefniadau newydd sy'n effeithio ar eu plant.

34 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau'r rhan fwyaf o agweddau ar eu gwaith newydd. Maent yn gwybod pa mor dda y maent yn gwneud ac yn gwybod sut y gallant wella. Maent yn ymddwyn yn dda ac yn datblygu geirfa estynedig, sy'n cynnwys un enghraifft ragorol, lle mae disgyblion yn defnyddio ac yn deall termau fel 'hwyluswr' a 'gwiriwr ansawdd' mewn perthynas â'u gwaith grŵp.

Monitro ac arfarnu

35 Mae llawer o'r ysgolion wedi sefydlu gwaelodlinau clir ar gyfer mesur cynnydd disgyblion yn eu herbyn. Ychydig iawn o ystyriaeth, fodd bynnag, a roddodd eraill i hyn, ac o ganlyniad byddant yn ei chael yn anodd mesur cynnydd disgyblion yn gywir.

36 Mae bron pob ysgol yn defnyddio amrywiaeth eang o brofion a deunydd asesu arall i fonitro cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion. Mae llawer o ysgolion yn asesu disgyblion yn rheolaidd ac mae'r nodwedd hon yn gryfder sylweddol ar drefniadau'r ysgolion hyn.

37 Mae llawer o ysgolion wedi sefydlu targedau clir ar gyfer gwella ar gyfer y dosbarth cyfan ac ar gyfer disgyblion unigol. Caiff y rhain eu gosod bob wythnos neu ar sail tymor hwy, ac mewn nifer fach o achosion, mae disgyblion yn helpu trwy drafodaeth i osod eu targedau eu hunain. Ychydig iawn o ystyriaeth, fodd bynnag, a roddodd ysgolion eraill i osod targedau, er bod digon o ddata a gwybodaeth ar gael iddynt wneud hynny.

38 Mae gan y rhan fwyaf o'r ysgolion systemau hunanarfarnu da a gallant lunio barnau arfarnol cadarn am gynnydd eu prosiectau RHAGORI. Mewn rhai ysgolion, mae hyn yn gryfder penodol. Nid yw un neu ddau o ysgolion wedi sefydlu prosesau arfarnu ffurfiol ar gyfer eu prosiectau.

Ysgolion uwchradd

Cynllunio prosiectau a chynlluniau gweithredu

39 Mae bron pob un o'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw wedi sefydlu prosiectau sy'n cynnwys yr ystod oedran lawn o ddisgyblion. Mae cysylltiad agos rhwng y gweithgareddau a chynllun datblygu'r ysgol bron ym mhob un o'r ysgolion. Mewn rhai achosion, mae'r ysgolion wedi mynd i'r afael â materion a nodwyd mewn adroddiadau arolygu ysgol diweddar. Defnyddiodd y rhan fwyaf o ysgolion restr cymhwyster Llywodraeth Cynulliad Cymru i gadarnhau prosiectau yr oeddent eisoes wedi'u dewis.

40 Yng nghyfnod allweddol 3 a 4, mae a wnelo llawer o'r prosiectau â gwella presenoldeb, ymddygiad, agweddau a llythrennedd disgyblion. Yn ogystal, yng nghyfnod allweddol 4, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gael profiad o gwricwlwm estynedig neu ystod gynyddol o gymwysterau. Mewn lleiafrif o achosion, mae ysgolion wedi defnyddio'r grant i ariannu hyfforddwr dysgu.

41 Bron ym mhob un o'r ysgolion, lluniwyd y cynllun gweithredu RHAGORI gan y pennaeth a'r uwch staff. Mae safon y cynlluniau yn dda ar y cyfan. Mae dwy o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynnwys nodweddion cryf yn eu cynllunio. Mewn un ysgol, roedd y cynllun ysgol yn bodloni meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol yn llawn ac yn cydnabod cefndir y disgyblion. Mewn ysgol arall, gwnaeth yr ysgol arolwg o ddisgyblion a defnyddio'u syniadau i helpu ysgrifennu'r cynllun. Mae ysgolion eraill wedi cynnwys y corff llywodraethol neu eu tîm o ymgynghorwyr AALl yn addas.

42 Fodd bynnag, dim ond tua hanner y cynlluniau gweithredu a archwiliwyd sy'n dangos yn ddigon clir sut bydd perfformiad disgyblion yn cael ei olrhain a'i arfarnu. Yn y cynlluniau eraill, ychydig o arwydd a geir os o gwbl o'r modd y mae'r ysgol yn bwriadu mynd ati i fonitro ac arfarnu, hyd yn oed pan allai'r pennaeth esbonio hyn ar lafar.

43 Cyfeiriodd tua hanner yr ysgolion at 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' wrth lunio'u cynlluniau gweithredu. Ysgolion y mae eu cynlluniau yn cynnwys rôl yr hyfforddwr dysgu a phwysigrwydd llwybrau dysgu unigol yw'r rhain fel arfer.

44 Nifer fach o ysgolion yn unig sydd wedi ymgynghori ag ystod lawn o bartneriaid fel y rhwydwaith dysgu lleol, colegau lleol, cwmnïau Gyrfa Cymru ac ysgolion eraill. Cynhaliodd llawer o ysgolion drafodaethau ag un neu ddau o'r cyrff hyn, fodd bynnag.

Rheoli darpariaeth

45 Mae gan y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ddealltwriaeth glir o'r cyswllt rhwng anfantais a thangyflawni. Mae gweithdrefnau ar gyfer dewis disgyblion i gymryd rhan mewn prosiectau wedi bod yn amrywiol. Mae bron pob ysgol wedi defnyddio ystod eang o ddata i nodi anghenion disgyblion, ond tua hanner ohonynt yn unig a ddefnyddiodd anfantais yn brif ffactor dros ddewis disgyblion. Fodd bynnag, oherwydd cyd-destun economaidd gymdeithasol yr ysgolion, mae bron pob un o'r disgyblion a ddewiswyd o gefndiroedd difreintiedig.

46 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi defnyddio grant RHAGORI i gyflogi athrawon neu gynorthwywyr cymorth dysgu newydd. Os byddant yn cadw'r staff hyn y tu hwnt i ddiwedd y rhaglen, cyllideb yr ysgol fydd yn talu'r costau. Nifer fach o ysgolion yn unig sydd wedi cynllunio i gynnal manteision prosiectau ar ôl i gyllid RHAGORI ddod i ben. Mae rhai ysgolion wedi bwriadu cynnal manteision prosiectau trwy adeiladu arbenigedd staff, prynu adnoddau sy'n cefnogi strategaethau addysgu newydd, a datblygu partneriaethau parhaus gydag eraill.

47 Bron ym mhob ysgol, mae'r pennaeth neu'r dirprwy bennaeth wedi cymryd cyfrifoldeb am reoli rhaglen RHAGORI. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae eu gweledigaeth wedi cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant gweithredu prosiectau RHAGORI. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid yw hi'n ddigon clir sut mae rheolaeth weithredol prosiectau RHAGORI yn cysylltu â gwaith uwch reolwyr ysgol.

48 Mewn tua hanner yr ysgolion, caiff aelodau staff ymgymryd â datblygiad proffesiynol effeithiol trwy ddiwrnodau hyfforddiant mewn swydd a sesiynau ar ôl yr ysgol. Mae lleiafrif o ysgolion wedi trefnu amser i staff baratoi cynlluniau gwaith neu ddatblygu adnoddau newydd.

49 Mae bron pob ysgol wedi rhoi gwybod yn llawn i'r holl gyfranogion am brosiectau RHAGORI, yn enwedig cyrff llywodraethol a'r staff cyfan. Mae lleiafrif wedi cyfathrebu'n sensitif â rhieni. Mewn un enghraifft dda, mae'r ysgol wedi ymgysylltu â rhieni a oedd wedi bod yn bartneriaid amharod i'r ysgol yn flaenorol. I wneud hyn, ymwelodd athrawon â rhieni gartref ac yn y gymuned leol.

50 At ei gilydd, mae prinder prosiectau arloesol a chreadigol. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion wedi datblygu prosiectau presennol neu brosiectau arfaethedig. Roedd y prosiectau hyn naill ai wedi'u sefydlu'n dda neu eisoes wedi'u cynllunio ond heb gael

eu symud yn eu blaenau oherwydd diffyg cyllid. Nifer fach o ysgolion yn unig a gyflwynodd strategaethau addysgu a dysgu newydd neu a gynigiodd mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion ddilyn gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol, er enghraifft.

51 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, caiff disgyblion eu cefnogi'n dda, maent yn gwerthfawrogi eu cyrsiau newydd yn fawr ac yn gwybod ble i fynd am gymorth. Dangosant hyder cynyddol ac maent yn sylweddoli pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd. Mewn un ysgol, mae gan bob disgybl gynllun ar gyfer eu dyfodol ac mae eu cyfraddau presenoldeb wedi cyrraedd lefelau uchel newydd. Mewn ysgol arall, gall bechgyn ddisgrifio mantais strategaethau addysgu a dysgu newydd. Mewn rhai ysgolion, mae agwedd y disgyblion a ddewiswyd yn parhau yn negyddol, ac maent yn ystyried y prosiectau yn weithgareddau unigol yn hytrach nag yn ffordd o ailintegreiddio'n llwyddiannus i addysg prif ffrwd.

52 Nid oedd bron yr un ysgol yn ymwybodol o rôl y cydlynydd rhanbarthol adeg yr ymweliadau.

Monitro ac arfarnu

53 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio data yn helaeth ac mae ganddynt systemau sefydledig ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae mwyafrif hefyd wedi sefydlu gwaelodlinau clir ar gyfer mesur cynnydd y disgyblion sy'n cymryd rhan ym mhrosiectau RHAGORI. Mewn rhai ysgolion, ni ddefnyddir data yn ddigon gofalus i asesu cynnydd disgyblion. Mae'r ysgolion hyn yn aml yn canolbwyntio gormod ar fesurau ansoddol sy'n gysylltiedig ag agwedd ac ymddygiad, heb asesu cynnydd mewn cyrhaeddiad a chyflawniad.

54 Mae llawer o'r ysgolion wedi gosod targedau ar gyfer eu disgyblion, er nad oes targedau ar gyfer disgyblion unigol mewn nifer fach o ysgolion, ac mae targedau'n ymwneud yn gyfan gwbl â grwpiau neu ddosbarthiadau cyfan.

55 Mae gan ryw hanner yr ysgolion weithdrefnau strwythuredig ar gyfer arfarnu llwyddiant y prosiectau. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion eraill yn monitro prosiectau RHAGORI, ond maent yn dibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd yn unig neu nid ydynt wedi sefydlu systemau trylwyr i roi gwybod am gynnydd i uwch reolwyr.

Ysgolion arbennig

Cynllunio prosiectau a chynlluniau gweithredu

56 Yn y tair ysgol arbennig yr ymwelwyd â nhw, mae bron pob un o'r prosiectau:

- yn canolbwyntio'n briodol ar ymestyn profiadau disgyblion trwy leoliadau gwaith, er enghraifft;
- yn datblygu dysgu y tu allan i oriau neu ddysgu yn yr awyr agored;
- yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion lwyddo; neu
- yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig ryngweithio ag ystod ehangach o bobl.

Rheoli darpariaeth

57 Mae dwy o'r tair ysgol arbennig yr ymwelwyd â nhw yn gwbl ymwybodol o'r berthynas rhwng anfantais a thangyflawni, ond un ysgol yn unig a oedd yn targedu disgyblion dan anfantais yn benodol. Mewn ysgol arall, nid oes dealltwriaeth dda o'r cyswllt rhwng anfantais a thangyflawni, ac nid yw'r broses o ddewis disgyblion ar gyfer y prosiectau yn canolbwyntio ar anfantais.

58 Fe wnaeth y rhan fwyaf o'r uwch reolwyr ymgynghori'n dda â'u staff cyn cynllunio prosiectau a sefydlu cysylltiadau agos â chyrff allanol. Creodd un ysgol grŵp llywio arloesol o gynrychiolwyr o ystod o asiantaethau. Mae wedi cysylltu prosiectau RHAGORI yn effeithiol iawn â mentrau eraill fel 'Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion' a Champau'r Ddraig.

59 Mae dwy o'r ysgolion wedi gwneud cynlluniau i sicrhau bod prosiectau yn gallu parhau pan ddaw cyllid RHAGORI i ben. Mae un ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod y manteision o'r prosiect yn parhau.

60 Mae wedi:

- sefydlu rhaglen hyfforddi strwythuredig i ddatblygu arbenigedd ymhlith y staff presennol;
- creu partneriaethau eang a chryf; ac wedi
- prynu offer i'w ddefnyddio dros gyfnod o sawl blwyddyn.

61 Fodd bynnag, mae ysgol arall ond wedi cynllunio am flwyddyn ac un ysgol yn unig sydd wedi rhoi amser i staff ddatblygu medrau neu adnoddau newydd.

Monitro ac arfarnu

62 Mae pob un o'r ysgolion yn nodi cynnydd disgyblion yn effeithlon naill ai drwy fonitro cynlluniau addysg unigol yn rheolaidd neu drwy ddefnyddio ffurflenni olrhain manwl. Fodd bynnag, nid oes yr un o'r ysgolion wedi sefydlu gwaelodlinau ystyrlon na gosod targedau unigol ar gyfer disgyblion.

Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau addysg lleol

Monitro cynlluniau gweithredu

63 Mae'r rhan fwyaf o'r AALlau yr ymwelwyd â nhw yn gadarnhaol ynghylch menter RHAGORI, er bod y graddfeydd amser ar gyfer llunio cynlluniau gweithredu yn fyr ac ni ddarparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru feini prawf arfarnu ar gyfer derbyn cynlluniau ysgol yn ddigon buan.

64 Ar y dechrau, ni ddarparwyd unrhyw adnoddau ychwanegol i AALlau wneud y gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â chefnogi, monitro ac arfarnu'r fenter, y tu hwnt i'w rolau arferol gydag ysgolion. Mae £50,000 wedi cael ei roi i awdurdodau lleol arwain mewn pedwar rhanbarth i sefydlu trefniadau cydlynu ar gyfer y flwyddyn ysgol 2006-2007. Rhoddwyd cryn dipyn o ryddid i'r grwpiau rhanbarthol ddiffinio rôl y cydlynydd rhanbarthol. Mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y strategaeth hon.

65 Ymatebodd bron pob un o'r AALlau yn gyflym pan gawsant wybod am y grant a rhoesant wybod i ysgolion ar unwaith trwy e-bost neu lythyr. Cynhaliodd rhai AALlau gyfarfodydd â phenaethiaid yr ysgolion y dyfarnwyd cyllid RHAGORI iddynt. At ei gilydd, rhoddodd AALlau gymaint o amser â phosibl i ysgolion gwblhau eu cynlluniau gweithredu.

66 Roedd yn rhaid i ysgolion gyflwyno'u cynlluniau gweithredu i Lywodraeth Cynulliad Cymru eu cymeradwyo. Cynigiodd bron pob AALl gymorth da i ysgolion wrth arfarnu ac addasu eu cynlluniau gweithredu a'u cynigion. Mewn un AALl, rhoddodd cydlynydd RHAGORI gyfarwyddyd strategol cryf ar gyfer gwaith yr ysgolion. Galluogodd y cyllid i rai AALlau weithio gydag ysgolion yr oeddent yn eu hystyried yn anodd dylanwadu arnynt. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ymgynghorwyr yn adnabod eu hysgolion yn dda. Roeddent yn adolygu eu cynlluniau yn ofalus ac yn trafod newidiadau a awgrymir gyda phenaethiaid.

67 Fe wnaeth bron pob un o'r AALlau ystyried y cynlluniau gweithredu yn ofalus a chefnogi datblygu prosiectau a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i ddisgyblion difreintiedig. Rhoddodd un AALl ddogfen arweiniad clir i helpu ysgolion i ysgrifennu eu cynlluniau. Fe wnaeth mwyafrif yr AALlau gymharu cynlluniau RHAGORI yn briodol â chynlluniau datblygu'r ysgolion. Lleiafrif o AALlau yn unig a gyfeiriodd at 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' am arweiniad neu gymharu cynlluniau RHAGORI ysgolion â dogfennau strategol fel cynlluniau datblygu rhwydwaith blynyddol ar gyfer arfarnu, pan oedd y rhain ar gael.

68 Rhoddodd y rhan fwyaf o AALlau gyngor da i ysgolion yr oedd diffyg manylder yn eu cynlluniau. Fe wnaeth ymgynghorwyr naill ai anfon ebost at yr ysgolion hyn neu ailymweld â nhw, ond ni wnaeth pob pennaeth ymateb ac ailysgrifennu eu cynlluniau yn ddigon trylwyr. Mae llawer o AALlau yn sicrhau bod cynlluniau gweithredu yn cynnwys nodi gwaelodlinau yn glir ar gyfer mesur cynnydd yn eu herbyn, gan mai dyma'r prif ddiffyg yng nghynlluniau cychwynnol y rhan fwyaf o ysgolion. Nid yw un AALl wedi bod yn ddigon trylwyr wrth fynnu cynnwys data gwaelodlin. Mae mwyafrif yr AALlau yn gwneud arfarniad addas o'r modd y mae ysgolion yn dewis grwpiau o ddisgyblion i gymryd rhan mewn gwahanol brosiectau, ond nid yw AALlau eraill yn herio ysgolion ddigon ynglŷn â hyn.

69 Rhannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynlluniau gweithredu yn dri chategori. Roedd categori 1 yn golygu bod y cynigion yn dderbyniol ac nad oedd angen eu diwygio yn sylweddol. Fe wnaeth bron pob AALl weithio'n agos ag ysgolion y rhoddwyd eu cynlluniau yng nghategori 2 (derbyniol ond angen eu diwygio rhywfaint) neu 3 (annerbyniol). Mewn un AALl, roedd hyn yn nodwedd ragorol. Roedd yr uwch ymgynghorydd yn cymryd cyfrifoldeb personol am gefnogi'r broses o ailddrafftio'r cynlluniau hyn. Fe wnaeth AALl arall ffonio pob ysgol yr oedd eu cynllun yng nghategori 2 a gwahodd penaethiaid pob ysgol yr oedd eu cynllun yng nghategori 3 i drafodaeth.

70 Trwy gydol yr amser yr oedd y cynlluniau'n cael eu hysgrifennu a'u harfarnu, mae pob AALl wedi cymryd gofal priodol i aros mewn cysylltiad agos ag ysgolion. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, mae swyddogion cyswllt wedi trafod y cynlluniau â phenaethiaid yn rheolaidd. Mae un uwch swyddog wedi ysgrifennu cyfres o lythyrau er gwybodaeth i ysgolion, ac mewn AALl arall, mae cydlynydd RHAGORI wedi ymweld â phob ysgol sy'n cael cyllid.

Cydlynu, cymorth a her

71 Yn ystod y cyfnod cynllunio, ni roddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddigon o amser i AALlau ac ysgolion feddwl am gynllunio prosiectau arloesol. Pan fydd ysgolion wedi sefydlu rhaglen o weithgareddau, mae AALlau yn ei chael yn anodd eu hannog i fabwysiadu dulliau newydd, creadigol, yn enwedig pan fydd cynllun yr ysgol wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

72 Mae pob un o'r AALlau yr ymwelwyd â nhw wedi cefnogi ysgolion wrth iddynt gyflwyno'u prosiectau i raddau amrywiol. Mae un AALl ond wedi cynnal cyfarfod cychwynnol i bwysleisio pwysigrwydd olrhain data a chanlyniadau. Mae AALl arall wedi sefydlu cyfres o fentrau y mae llawer o ysgolion yn 'buddsoddi' ynddynt trwy ddefnyddio'u cyllid RHAGORI. Mae AALlau eraill yn defnyddio'u hymgynghorydd a'u cysylltiadau clwstwr presennol. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o AALlau strategaeth gynhwysfawr i gydlynu gweithgareddau ysgolion, hyd yn oed pan fydd sawl ysgol wedi mabwysiadu prosiectau tebyg ar lythrennedd neu rifedd, er enghraifft.

Monitro ac arfarnu

73 Nid yw'r rhan fwyaf o AALlau wedi datblygu strategaeth glir ar gyfer monitro ac arfarnu effaith prosiectau RHAGORI ysgolion eto. Mae un AALl yr ymwelwyd ag ef wedi rhoi rhestr wirio drylwyr i'w ymgynghorwyr ar gyfer eu hymweliadau monitro ag ysgolion. Mae'r rhan fwyaf o AALlau yn bwriadu cael ymgynghorwyr cyswllt i fonitro'r prosiectau fel rhan o'u rhaglen arferol o ymweliadau ysgol, gan ddefnyddio hunanarfarnu a data gan ysgolion, ond nid oeddent yn defnyddio meini prawf a oedd yn benodol i RHAGORI bob tro. At ei gilydd, nid yw'r rhan fwyaf o'r AALlau wedi rhoi llawer o ystyriaeth i'r agwedd hon ar eu rôl.

74 Nifer fach o AALlau sydd wedi rhoi anogaeth ddigonol i ysgolion sefydlu gwaelodlinau trylwyr i athrawon asesu'r cynnydd a wnaed gan ddisgyblion sy'n cymryd rhan mewn prosiectau RHAGORI. Mae un AALl wedi sefydlu rhaglen datblygu hunanarfarnu ddefnyddiol ar gyfer ysgolion. Fodd bynnag, at ei gilydd, dim ond rhai AALlau sy'n monitro pa mor dda y mae ysgolion yn arfarnu prosiectau RHAGORI.

75 Mae pob grŵp rhanbarthol neu gonsortiwm o awdurdodau lleol wedi penodi o leiaf un cydlynydd RHAGORI erbyn mis Mawrth 2007. Fodd bynnag, mae cynnydd wrth egluro a sefydlu rôl y cydlynydd yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Mae un consortiwm wedi llunio cynllun gweithredu clir sy'n cynnwys cysylltu ysgolion sy'n cymryd rhan mewn prosiectau tebyg. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys manylion am raglen hyfforddi gydlynus a threfniadau ar gyfer rhannu arfer dda rhwng pob ysgol yn y consortiwm, nid yn unig yr ysgolion hynny sy'n cael cyllid RHAGORI. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw AALlau yn gweithio'n ddigon agos ag ysgolion i gydlynu gweithgareddau o fewn AALlau a rhyngddynt.